


Cadw Dysgwyr yn Ddiogel



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Rôl pob un ohonom ni dan Ddeddf Addysg 2002

Cyflwyniad

Dylai pawb sy'n gweithio mewn addysg rannu'r un nodau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- greu a chadw lleoedd diogel i ddysgu
- nodi lle mae yna bryderon o ran lles, a chymryd y camau cywir
- helpu plant a phobl ifanc i fod yn ymwybodol a deall sut i gadw'n ddiogel.

Rydyn ni'n cyrraedd y nodau hyn trwy:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- cael arferion diogel ar waith
- herio arfer gwael neu anniogel
- nodi pan mae yna fater neu bryder sy'n ymwneud â lles plentyn, a chymryd camau
- cydweithio â gwasanaethau eraill.

Crynodeb yw hwn o'n cyfarwyddyd newydd. Nid yw'n disodli cyfreithiau a pholisïau sydd gennym ni'n barod; yn hytrach, mae'n adeiladu arnyn nhw.

Mae yna lawer o bethau da rydyn ni'n eu gwneud yng Nghymru i ddiogelu plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr ein bod ni'n dilyn gofynion:

- Deddf Plant 1989
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Plant 2004
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- saith nod craidd CCUHP ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae gennym ni hefyd:

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae hon yn helpu pob gwasanaeth i gydweithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn mwynhau bywydau iach a hapus, ac o fis Ebrill 2016 mae'n gosod dyletswydd ar bawb i roi gwybod pan mae ganddyn nhw bryderon y gallai plentyn fod mewn perygl neu'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Cytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau plant yw hwn.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae hwn yn rhoi CCUHP mewn cyfraith. Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r sylw dyledus i CCUHP ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud.



Ein hegwyddorion

Mae angen i ni i gyd gydweithio a gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod nhw'n cael popeth sydd ei angen arnyn nhw i gael bywyd hapus ac iach.

Mae angen i'n holl waith:

- **ganolbwyntio ar y plentyn:** mae gosod y plant fel canolbwynt a'u cynnwys nhw mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw'n golygu ein bod ni'n fwy tebygol o sylwi pan mae rhywbeth o'i le
- **bod â datblygiad plant wrth ei wraidd:** gwneud yn siŵr bod cynlluniau ar waith i'w cadw'n ddiogel, ym mhob cyfnod o'u bywyd
- **bod â ffocws ar ddeilliannau:** gwneud yn siŵr bod y plant yn gallu cyrraedd eu nodau a chael y cyfleoedd gorau
- **bod yn gyfannol ein dull o weithredu:** bydd deall y plentyn cyfan, gan gynnwys y teulu, y gymuned a'r diwylliant, yn gwella'r cymorth rydyn ni'n ei roi
- **bod wedi'i seilio at gyfle cyfartal:** dylai'r holl blant gael y cyfle i gyflawni'r datblygiad gorau posibl, waeth beth fo'u rhyw, eu gallu, eu hethnigrwydd, eu hamgylchiadau, eu hoedran neu unrhyw reswm arall
- **bod wedi'i adeiladu ar gryfderau:** mae gweithio gyda chryfderau plentyn neu deulu yr un mor bwysig â gweithio gyda'u hanawsterau
- **bod yn aml-asiantaethol ein dull o weithredu:** mae angen i bawb gydweithio
- **bod yn broses barhaus:** ni ddylai cymorth fod yn set o ddigwyddiadau unigol; dylai fod yn hyblyg a dylid edrych arno'n rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn diwallu eu hanghenion
- **bod yn seiliedig ar dystiolaeth:** rhaid seilio cymorth ar dystiolaeth mai dyma'r ffordd orau i ddiwallu anghenion plentyn
- **bod yn wyladwrus o ran lles plant:** dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant allu cydnabod a gwybod beth i'w wneud pan mae yna dystiolaeth bod iechyd neu ddatblygiad plentyn mewn angen neu mewn risg o niwed
- **cynnwys plant a theuluoedd:** mae'n bwysig gwrando ar ddymuniadau a theimladau plentyn.



Rolau a chyfrifoldebau diogelu

Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn hapus.

Mae hyn yn digwydd ar dair lefel:

Ar lefel strategol

Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod yr holl gynlluniau, gwasanaethau a'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu dyrannu'n helpu pawb i gydweithio.

Ar lefel cymorth

Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod yr holl ysgolion y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw'n gwybod am eu cyfrifoldebau am amddiffyn plant, bod ganddyn nhw hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau ar waith a bod ysgolion yn cael yr holl gyngor a chymorth sydd eu hangen arny'n nhw i wneud hyn. Mae angen iddyn nhw hefyd fod â chofnod o berson dynodedig uwch a llywodraethwyr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant ym mhob ysgol.

Ar lefel weithredol

Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn ddiogel, hyd yn oed os ydyn nhw wedi'u gwahardd o'r ysgol, neu os nad ydyn nhw wedi cael lle mewn ysgol. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd ddelio ag adroddiadau yn erbyn staff neu wirfoddolwyr, a gwneud yn siŵr bod trefniadau ar waith i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda dysgwyr.

Dylai pob awdurdod lleol fod â pherson dynodedig uwch yn yr adran addysg sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Ysgolion a cholegau

Mae pob ysgol a choleg yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod eu dysgwyr yn ddiogel.

Y person dynodedig uwch ar gyfer amddiffyn plant

Dylai pob ysgol neu goleg benodi person dynodedig uwch sy'n gyfrifol am reoli amddiffyn plant. Nid oes yn rhaid iddyn nhw fod yn athro ond mae'n rhaid iddyn nhw gael yr awdurdod i wneud beth bynnag sydd angen ei wneud i ddiogelu dysgwyr.

Y person dynodedig uwch yw'r prif gyswllt a'r prif ffynhonnell cefnogaeth, cyngor a help pan mae gan aelod o staff neu unrhyw un bryder ynglŷn â phlentyn. Mae'n gyfrifol am benderfynu a oes angen atgyfeirio achos er mwyn cadw plentyn neu berson ifanc yn ddiogel.



Llywodraethwyr

Bydd gan bob bwrdd llywodraethwyr lywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Mae gan bob corff llywodraethu bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith:

- y maen nhw'n edrych arnyn nhw bob blwyddyn
- sydd ar gael i rieni a gofalwyr os ydyn nhw'n gofyn amdanyn nhw
- sydd ar gael mewn fersiwn i bobl ifanc y mae disgyblion yn gallu ei deall
- sydd â chymau ar waith i ddelio ag adroddiadau yn erbyn aelodau o staff
- sy'n cefnogi staff newydd.

Bydd gan y bwrdd Llywodraethwyr lywodraethwr dynodedig sy'n cymryd cyfrifoldeb am bob mater amddiffyn plant.

Ysgolion annibynnol

Mae gan fyrddau ysgolion annibynnol gyfrifoldebau tebyg ond nid oes yn rhaid i awdurdodau lleol helpu â chynghor neu gymorth yn yr un ffordd. Mae gan ysgolion annibynnol sy'n cynnig lleoedd preswyl gyfrifoldebau ychwanegol.

Colegau

Os oes gan y coleg fyfyrwr sydd dan 16 oed ac sydd dal yn yr ysgol, yna bydd person dynodedig uwch yr ysgol yn gweithio gyda'r coleg.

Ysgolion bro, gweithgareddau cyn ysgol ac ar ôl ysgol a dysgu y tu allan i oriau

Mae corff llywodraethu'n rheoli'r ffordd o ddefnyddio safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol a hefyd y tu allan i oriau ysgol, felly mae eu polisi amddiffyn plant yn dal i fod yn berthnasol. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod gan sefydliadau a grwpiau sy'n defnyddio'u safle y polisiâu a'r gweithdrefnau iawn ar waith.

Prifathrawon a phenaethiaid

Dylai pob prifathro ysgol a choleg wneud yn siŵr:

- bod polisiâu amddiffyn plant ar waith
- bod yna ddigon o adnoddau ac amser ar gyfer y person dynodedig uwch
- bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall beth i'w wneud a'u bod nhw'n teimlo'u bod nhw'n gallu codi pryderon.

Hyfforddiant amddiffyn plant

Mae angen i'r holl staff gael hyfforddiant amddiffyn plant sy'n eu helpu nhw i gydnabod ac ymateb i bryderon ynglŷn â lles plentyn.

Goruchwyliaeth a chymorth

Dylai'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar bawb dan sylw fod ar gael iddyn nhw.



Cyfrifoldeb pawb

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel rhag niwed, a chymryd camau os oes ganddyn nhw bryderon.

Os bydd plentyn yn dweud wrthyh chi eu bod nhw neu berson ifanc arall yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, fe ddylech chi:

- ddangos i'r plentyn eich bod chi wedi clywed beth mae'n ei ddweud, a'ch bod chi'n ei gymryd o ddifrif
- annog y plentyn i siarad, ond heb roi syniadau yn ei ben neu ofyn cwestiynau arweiniol
- peidio â thorri ar draws pan mae'r plentyn yn dweud wrthyh chi am ddigwyddiadau
- peidio â gwneud i'r plentyn ailadrodd hyn drosodd a thro
- esbonio'r camau y mae'n rhaid ichi eu cymryd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'w oedran a'i ddealltwriaeth
- peidio ag addo i'w gadw'n gyfrinachol
- gwneud nodiadau ysgrifenedig o'r hyn y mae wedi'i ddweud, gair am air os yn bosibl, cyn gynted â phosibl
- nodi'r dyddiad, yr amser, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol yn y drafodaeth
- peidio â mynd wyneb yn wyneb â'r camdriniwr honedig.

Peidiwch â phoeni y gallech chi fod wedi camgymryd. Bydd y person dynodedig uwch bob amser yn eich cymryd o ddifrif. Mae'n well bod wedi ei drafod â rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i asesu'r sefyllfa.

Ni ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant, gofalwr neu aelod o'r cyhoedd sy'n dweud wrth staff am eu pryderon ynglŷn â lles plentyn atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu eu hunain.

Gwrando ar blant

Bydd plant yn siarad am eu problemau â phobl y maen nhw'n teimlo y gallan nhw ymddiried ynddyn nhw ac y maen nhw'n gyfforddus â nhw. Dylai ysgolion ddangos eu bod nhw'n lle diogel lle mae'n iawn siarad.



Ceisio cyngor ar bryderon

Fe all drwgdybiaeth bod plentyn yn cael ei gam-drin fod ar ffurf 'pryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Mae'n bosibl rhannu pryderon â'r person dynodedig uwch, a dylid gwneud hynny.

Cadw cofnodion

Dylid cofnodi unrhyw sgwrs ynglŷn â lles plentyn yn ysgrifenedig, gan gynnwys y dyddiad a'r amser. Ar ddiwedd y drafodaeth, dylid bod â chytundeb eglur ynglŷn â'r camau i'w cymryd a phwy fydd yn eu cymryd.

Os mai peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yw'r penderfyniad, dylid cofnodi hyn yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhesymau am y penderfyniad.

Ymchwiliadau

Ni ddylai'r person dynodedig uwch gwblhau ei ymholiadau amddiffyn plant mewnol ei hun ond yn hytrach rhannu'r wybodaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Dylai yna barhau i weithio gyda'r asiantaethau hynny pan maen nhw wrthi'n cwblhau ymchwiliadau.

Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod o staff, mae'n rhaid i'r ysgol wneud ei phenderfyniadau mewnol ei hun ynglŷn â ph'un ai mater disgyblaethol yw hyn, ynteu mater amddiffyn plant.

Atgyfeirio

Dylai'r person dynodedig uwch atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu cyn gynted â phosibl, ond bob amser o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylid atgyfeirio at wasanaethau dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol

Mae hwn yn amlinellu rhai o'r materion allweddol y dylai'r holl staff fod yn ymwybodol ohonyn nhw.

Os oes gan unrhyw aelod o staff bryderon ynglŷn â phlentyn fe ddylen nhw ddweud wrth y person dynodedig uwch.

Bydd y person dynodedig uwch yn penderfynu a oes angen atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Hyd yn oed os yw'r person ifanc yn dweud ei fod yn 18 oed, dylid dweud wrth y person dynodedig uwch.

Cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yw'r peth pwysicaf felly gall staff atgyfeirio at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol os ydyn nhw o'r farn bod diogelwch plentyn yn y fantol.



Plant a phobl ifanc yn cam-drin, gan gynnwys cam-drin rhywiol (ymddygiad rhywiol niweidiol)

Gall plant fod yn fygythiad corfforol neu rywiol i blant eraill.

Weithiau, gall y berthynas rhwng plant fod yn fygythiol, yn amhriodol neu'n gamfanteisiol.

Dolenni:

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#) - canllaw ar gam-drin gan blant a phobl ifanc.

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

Plant sy'n ffoaduriaid/sy'n geiswyr lloches

Dylid ystyried y plant a'r bobl ifanc hyn yn blant yn gyntaf, ac yn fewnfudwyr yn ail.

Gall y plant ddod i mewn i'r wlad fel rhan o deulu, gyda gofalwr sy'n oedolyn, neu hyd yn oed ar eu pen eu hunain, sy'n golygu eu bod nhw'n fwy agored i niwed.

Efallai eu bod nhw wedi gweld neu wedi dioddef digwyddiadau trawmatig, wedi dioddef colled neu maen nhw'n wynebu rhwystrau o ran cyfathrebu neu iaith.

Dolenni:

[Pecyn Adnoddau i Athrawon ar gyfer Gweithio gyda Phlant sy'n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches.](#)

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

[Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches.](#)

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

Plant Duon a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig


Mae yna wahaniaethau diwylliannol wrth fagu plant ond nid yw 'diwylliant' yn esgus dros niweidio plentyn.

Mae gan bob plentyn hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed ac mae angen i ni fod yn eglur ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng arfer diwylliannol benodol nad yw'n niweidiol, ac achosion o gam-drin sydd â chysylltiad posibl â chredoau diwylliannol neu grefyddol.

Dolenni:

[Bwllo ar sail hil, crefydd a diwylliant](#)

[Amddiffyn Plant Duon a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig: Ymchwiliad i Ymyriadau Amddiffyn Plant.](#)



Bwlio

Mae gan bawb hawl i ddysgu, heb ofni bwlio, pa bynnag ffurf y mae bwlio arni.

Gall bwlio fod ar ffurf:

- gorfforol, fel taro neu gicio
- cymryd eiddo
- aflonyddu rhywiol
- galw enwau
- sarhad
- rhoi sion ar led.

Mae seiberfwlio ar gynnydd ac mae'n cynnwys tecstio, sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu anfon negeseuon e-bost maleisus.

Mae'n bwysig bod gan ysgolion ddiwylliant lle mae pawb yn ddiogel ac wedi'u cynnwys, a'u bod nhw'n camu i mewn yn gyflym i atal bwlio.

Dolenni:

[Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio \(24/2003\)](#)

[Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau](#)
[Casineb: Fframwaith Gweithredu](#)

[MEIC](#) - Llinell gymorth sy'n cwnsela plant a phobl ifanc

[Canolfan Genedlaethol Troseddau a Digwyddiadau](#)
[Casineb](#)

Delweddau cam-drin plant a'r rhyngrwyd

Mae'n bwysig gwybod pwy y mae plant mewn cysylltiad â nhw ar y rhyngrwyd.

Mewn rhai achosion, mae camdrinwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd i 'baratoi' plant ar gyfer perthynas amhriodol, a all gynnwys eu perswadio i anfon delweddau neu fideos amhriodol o'u hunain.

Fel rhan o'u rôl mewn atal camdriniaeth ac esgeulustod, dylai ysgolion ystyried gweithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth o ffyrdd diogel i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol ac yn y cartref.

Dolenni:

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

[Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein](#) - (CEOP)

E-Ddiogelwch

Rydyn ni eisiau i ysgolion ddefnyddio'r rhyngrwyd i'r eithaf a gwybod sut i'w ddefnyddio'n ddiogel. Mae parth e-ddiogelwch ar-lein newydd wedi'i sefydlu ar wefan Hwb sydd ag adnoddau a phecynnau gwybodaeth ynglŷn â chadw'n ddiogel.

Dolenni:

[Datganiad ar ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfrifol mewn addysg.](#)

[Hwb](#)

[360 degree safe Cymru, teclyn hunanadolygu e-ddiogelwch.](#)

[Adnodd Dinasyddiaeth a Llythrennedd Digidol.](#)



Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â dewiniaeth neu gredoau ysbrydol eraill

Mae pobl mewn llawer o wahanol wledydd, diwylliannau a chrefyddau'n credu mewn meddiant y diafol a dewiniaeth, ond nid oes unrhyw gyfiawnhad dros niweidio plentyn.

Dolenni:

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#) - canllaw ar gam-drin plant sy'n gysylltiedig â chredu mewn meddiant y diafol neu ddewiniaeth, neu mewn ffyrdd eraill sy'n gysylltiedig â chred ysbrydol neu grefyddol.

Esgeuluso plant

Mae yna bedwar prif faes esgeuluso plant:

- **Corfforol** – diffyg anghenion sylfaenol fel bwyd, dillad ac ati.
- **Addysgol** – diffyg cefnogaeth i ddysgu.
- **Emosiynol** – anwybyddu'r plentyn, ei ynysoli, ei wrthod neu fethu â'i annog.
- **Meddygol** – methu â rhoi gofal iechyd, gan gynnwys iechyd deintyddol.

Esgeuluso yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar gam-drin plant yng Nghymru. Mae'n gallu cael effaith hynod niweidiol ar eu bywydau.

Dolenni:

www.core-info.cardiff.ac.uk/category/leaflets

- Taflenni'r NSPCC sy'n helpu i nodi arwyddion esgeuluso.

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

Plant sy'n byw i ffwrdd o gartref

Ystyrir bod plant yn byw i ffwrdd o gartref os ydyn nhw mewn:

- gofal maeth
- gofal preswyl
- unedau diogel
- ysgolion preswyl
- llety annibynnol.

Weithiau, mae'r llety hwn dros dro, sy'n gallu eu cythryblu a'u gwneud nhw'n agored i niwed.

Dolenni:

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)



Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Nid yw plant yn gwirfoddoli i gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnyn nhw, ac ni allan nhw gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain. Maen nhw'n cael eu gorfodi neu eu bygwth. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys:

- cyfnewid gweithgareddau rhywiol am dâl
- cynhyrchu delweddau anweddus
- paratoi i bwrpas rhyw
- masnachu plant.

Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yn rhan bwysig o'u haddysgu i gadw'n ddiogel a dweud wrth rywun am eu camdriniaeth.

Dolenni:

[Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol](#)

[Protocolau ar gyfer Cymru Gyfan](#) - sy'n cynnwys Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol.

Masnachu plant

Mae masnachu plant yn gam-drin plant.

Mae'n bosibl y caiff plant sy'n cael eu masnachu eu defnyddio ar gyfer:

- camfanteisio rhywiol
- gwasanaeth domestig
- llafur camfanteisiol
- gweithgarwch troseddol
- priodi dan orfod.

Dolenni:

[Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a Allai Fod Wedi Cael Eu Masnachu Deddf Troseddau Rhywiol 2004](#)

[Deddf Lloches a Mewnfudo \(Trin Hawlwyr ac ati\) 2004](#) - Penderfyniad Fframwaith yr UE ar Fasnachu Pobl at Ddibenion Camfanteisio Rhywiol a Chamfanteisio ar Weithwyr

[Confensiwn ar Weithredu yn Erbyn Masnachu Pobl.](#)

[Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu masnachu](#)

[Strategaeth ar Fasnachu Pobl.](#)

Hefyd Canolfan Cyngor ar Fasnachu Plant yr NSPCC

0808 800 5000 - help@nspcc.org.uk



Plant sy'n mynd ar goll o addysg

Mae gan bob awdurdod lleol ac ysgol gyfrifoldeb i geisio olrhain yr holl blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o addysg. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sydd, yn syml, yn symud heb ddweud wrth unrhyw un.

Dolenni:

[Cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg.](#)

Rhai sy'n rhedeg i ffwrdd

Mae rhedeg i ffwrdd yn aml yn arwydd bod rhywbeth o'i le ac mae'n golygu bod y plentyn yn fwy tebygol o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Y prif bethau sy'n achosi plant i redeg i ffwrdd yw:

- y teulu'n chwalu
- ffrindiau o ansawdd gwael
- bywyd anhapus yn yr ysgol neu'r cartref
- camddefnyddio sylweddau
- cam-drin corfforol neu rywiol
- problemau iechyd meddwl
- bwlio.

Dolenni:

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

Plant anabl

Mae'r camau ar gyfer diogelu dysgwyr ag anabledd yr un fath â'r rhai ar gyfer dysgwyr eraill, ond maen nhw'n aml yn fwy agored i niwed.


Pan mae gan blant anawsterau cyfathrebu, anawsterau dysgu neu broblemau iechyd emosiynol, mae angen rhoi sylw arbennig i barchu a deall eu dymuniadau a'u teimladau.

Dolenni:

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

[Rhan 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#) - sy'n manylu ar ddyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol.



Trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Cam-drin Domestig – sef cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae'r dioddefwr yn byw gyda'r camdriniwr neu'n perthyn iddo. Gall dynion, menywod a phlant fod yn ddioddefwyr.

Mae plant mewn teuluoedd lle ceir cam-drin domestig mewn perygl o gael eu niweidio.

Trais ar sail rhywedd – sef trais neu fygythiadau o drais sy'n deillio o gredoau mewn arferion sy'n ymwneud â rhywedd.

Trais rhywiol – sy'n cynnwys camfanteisio, aflonyddu neu fygythiadau rhywiol eu natur.

Mae yna gysylltiadau rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant. Mae'n bwysig bod ysgolion yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn mynd i'r afael â mater cam-drin domestig.

Dolenni:

[Fframwaith Gwasanaeth i ddiwallu anghenion pobl â Phroblemau â Cham-drin Domestig a Phroblemau â Chamddefnyddio Sylweddau](#)

[Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc y mae Cam-drin Domestig yn Effeithio Arnyh Nhw](#)

Llinell Gymorth Cymru Gyfan - 0808 8010 800

Cam-drin gan bartner personol ymhlith pobl yn eu harddegau

Mae cam-drin yn gallu digwydd o fewn perthnasoedd pobl ifanc ac mae'n effeithio ar y ddau ryw (er bod mwy o ferched yn rhoi gwybod am gamdriniaeth na bechgyn).

Gall y cam-drin fod yn gorfforol, yn rhywiol, yn emosiynol neu'n rheolaethol – mewn ffyrdd fel atal y person ifanc rhag gweld ffrindiau neu ddweud wrthyn nhw beth y maen nhw'n gallu ac ddim yn gallu ei ddweud.

Dolenni:

[www.nspcc.org.uk/relationshipabuse.](http://www.nspcc.org.uk/relationshipabuse)

Camddefnyddio sylweddau

Mae cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn achosi cryn niwed i ddefnyddwyr a'u teuluoedd.

Dolenni:

[Niwed Cudd - Ymateb i anghenion plant pobl sydd â phroblem â chyffuriau](#)

[Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013 - 2015](#)

[Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau](#)

[Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018](#)

[DAN 24/7](#)

Llinell Gymorth Camddefnyddio Sylweddau Cymru



Salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill (FII)

Ni ddylid defnyddio'r term FII oni bai bod yna risg o niwed, o ganlyniad i ddweud celwydd ynglŷn â salwch neu wneud plentyn yn sâl.

Dolenni:

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

[Diogelu Plant sydd â Salwch Wedi'i Ffugio neu Ei Achosi gan Eraill.](#)

Anffurfio organau rhywiol menywod (FGM)

Mae nifer o gymunedau'n ystyried bod FGM yn rhywbeth traddodiadol, ond mae FGM yn anghyfreithlon ac yn gamdriniaeth plant. Fel rheol, teulu'r ferch sy'n ei drefnu.

Dolenni:

[Protocol Plant Cymru Gyfan ar Anffurfio Organau Rhywiol Menywod](#)

[Canllawiau aml-asiantaeth](#)

[Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 2003](#)

[ForwardUK](#)

Llinell Gymorth yr NSPCC - 0800 028 3550
fgmhelp@nspcc.org.uk

Priodi dan orfod a thrais er anrhydedd

Yn wahanol i briodas wedi'i threfnu, mae priodi dan orfod yn golygu nad yw un o'r bobl neu'r ddau eisiau'r briodas a defnyddir pwysau neu gamdriniaeth i'w gorfodi.

Trosedd neu ddigwyddiad i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd y teulu neu'r gymuned yw trais er anrhydedd. Gall hyn gynnwys trais rhywiol, ymosodiadau corfforol, llathruddo, bygythiadau o drais neu fod yn dyst i drais tuag at frawd, chwaer neu aelod arall o'r teulu.

Dolenni:


[Canllawiau aml-asiantaeth: Trin achosion o Briodi dan Orfod](#)

[Yr Hawl i Ddewis](#)

[Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014](#)

[Priodi dan Orfod ac Anableddau Dysgu: Canllawiau Aml-asiantaeth](#)

Uned Priodi dan Orfod - 020 7008 0151
fmufco.gov.uk



Gofal maeth, gan gynnwys maethu'n breifat

Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel i blant.

Mae'r ffaith bod gofal maeth ym mhreifatrwydd cartref y gofalwyr yn gallu ei gwneud hi'n anodd nodi bod camdriniaeth yn digwydd ac yn anodd i blant leisio'u pryderon.

Dolenni:

[Deddf Plant 2004](#)

[Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwyr Maeth: Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamdriniaeth](#)

Ymweliadau cyfnewid dramor

Pan fydd ysgol yn trefnu ymweliad cyfnewid dramor, fe ddylai sicrhau bod yr oedolion a fydd yn darparu gofal a llety wedi bod yn destun y gwiriadau datgelu a gwahardd angenrheidiol.

Mae ymweliadau cyfnewid yn wahanol i deithiau ysgol eraill gan fod pobl ifanc yn treulio llawer o'u hamser gyda'r teulu sy'n eu derbyn, ac nid ydyn nhw bob amser dan oruchwyliaeth uniongyrchol athrawon.

Boed ysgol, awdurdod lleol neu rieni'n trefnu ymweliad cyfnewid, fe ddylid cyfathrebu'n agos ynglŷn â threfniadau ar gyfer ymweliadau fel bod pawb yn glir ynglŷn â sut bydd pobl yn gofalu am ddisgyblion, sut byddan nhw'n treulio'u hamser, a chydafwy.

Dolenni:

[Adran 175 Deddf Addysg 2002](#)

[Adran 28 Deddf Plant 2004](#)

Cyswllt corfforol â disgyblion neu ataliaeth

Mae cyswllt corfforol yn gallu amrywio o arwain plentyn yn ddiogel â llaw, i ddefnyddio ataliaeth ar ddisgybl i atal trais neu anaf iddo'i hun neu i eraill.

Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o rym rhesymol ond fe ddylai fod cyn lleied ag sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad dymunadwy.

Yn aml, mae'n rhaid gwneud y penderfyniadau hyn yn gyflym ond mae angen i staff ystyried:

- difrifoldeb y digwyddiad
- ydy hi'n bosibl gwneud hyn unrhyw ffordd arall
- y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymyriad corfforol o'i gymharu â defnyddio cynlluniau eraill.

Dolenni:

[Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o Ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol](#)

[Ymyriad diogel ac effeithiol: Defnyddio grym rhesymol](#)

[Cylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 47/2006](#)



Radicaleiddio

Radicaleiddio yw'r ffordd y mae rhai pobl yn dod i gefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar a hyd yn oed ymuno â grwpiau terfysgwyr.

Mae arwyddion bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael ei radicaleiddio'n cynnwys:

- newid ffrindiau, ymddygiad ac iaith
- mynegi barn eithafol
- bod â llenyddiaeth eithafol ei natur
- siarad o blaid trais
- cysylltu ag eithafwyr hysbys
- ceisio recriwtio eraill.

Dolenni:

[Gwrthsafiad a pharchi: Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau.](#)

[Strategaeth atal](#) - Dull aml-asiantaeth Llywodraeth y DU o drin radicaleiddio.

I roi gwybod os ydych chi'n amau cynnwys terfysgwyr ar-lein:

<https://www.gov.uk/report-terrorism>

Pobl ifanc sy'n cael rhyw

16 oed yw'r oedran cyfreithiol ar gyfer cael rhyw. Mae rhai plant yn cael rhyw cyn hynny, felly mae'n bwysig ystyried:

- a ydyn nhw'n gallu deall, a chydysnio i'r rhyw y maen nhw'n ei gael
- pwy y maen nhw'n byw gyda nhw
- ydy rhywun yn camfanteisio arnyn nhw
- a oes ganddyn nhw broblem â chyffuriau neu alcohol
- ydy rhywun yn gofyn iddyn nhw gadw hyn yn gyfrinachol
- a oes ganddyn nhw unrhyw anghenion dysgu
- neu unrhyw beth arall a allai beri pryder.

Plant dan 13 oed

Nid yw unrhyw blentyn dan 13 oed yn gallu cydsynio i gael rhyw.

Pobl ifanc rhwng 13 a 16 oed

Mae plant sy'n cael rhyw yn yr ystod oedran hwn dal yn agored i niwed, er nad ydyn nhw o bosibl o'r farn eu bod nhw. Bydd y person dynodedig uwch o bosibl yn trafod hyn â'r gwasanaethau cymdeithasol gan ddibynnu ar lefel risg y berthynas ym marn y staff a'r person dynodedig

uwch neu os yw'r person ifanc yn dod yn feichiog, yn cael camesgoriad neu'n cael terfyniad beichiogrwydd cynlluniedig.

Pobl ifanc rhwng 17 a 18 oed

Er nad yw'n drosedd cael rhyw yn y grŵp oedran hwn, mae yna risg bosibl bod y person ifanc yn ddioddefwr camfanteisio rhywiol.


Dolenni:

[Deddf Troseddau Rhywiol 2003](#)

[Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#)

[Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

[Deddf Plant 1989](#)



Hunanladdiad

Mae'n gallu bod yn anodd nodi plant a phobl ifanc sy'n ystyried lladd eu hunain, ond efallai eu bod nhw'n gwneud niwed i'w hunain, yn dioddef ar eu pen eu hunain neu mae gormod o ofn arnyn nhw siarad yn agored am sut maen nhw'n teimlo.

Dolenni:

[Siarad â Fi](#) - y cynllun gweithredu cenedlaethol i gael llai o bobl yng Nghymru yn lladd eu hunain neu'n niweidio'u hunain, sy'n manylu ar sut i:

- hybu lles ac iechyd meddwl
- camu i mewn yn gynnar i helpu
- ymateb i argyfwng personol
- rheoli'r canlyniadau yn sgil rhywun yn niweidio neu'n lladd ei hun
- hybu dysgu a gwybodaeth
- gweithio gyda'r cyfryngau
- ei gwneud hi'n fwy anodd cael gafael ar ddulliau i ladd eu hunain.

Plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid

Mae angen cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel pa bynnag ddewisiadau y maen nhw wedi'u gwneud neu beth bynnag y maen nhw wedi'i wneud yn eu bywydau.

Dolenni:

[Ymrwymiad i Ddiogelu](#) - Diogelu plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.



Recriwtio

Mae'n bwysig bod ysgolion, colegau a lleoedd addysg eraill yn cyflogi'r bobl iawn ac nid y rheiny a allai niweidio neu gam-drin dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael ffyrdd trylwyr o'u gwirio yn ystod pob cam o gyflogi rhywun.

Dylai pob ysgol a choleg wneud yn siŵr bod ganddyn nhw ddatganiad ysgrifenedig sy'n cael ei gynnwys yn eu holl ddeunyddiau a'u dolenni i'w polisi a'u gweithdrefnau amddiffyn plant. Gall y datganiad edrych fel hyn:

"Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn."

Os yw rhywun yn amau bod plentyn mewn risg o du aelod o staff neu rywun sy'n ymgeisio am swydd, fe ddylen nhw ddweud wrth y person dynodedig uwch a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am wirio gwybodaeth a chymryd camau.

Diolch am ddarllen hwn.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y cyfarwyddyd hwn, cysylltwch â:

Deborah Campbell
Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5010

e-bost: keepinglearnerssafe@Wales.gsi.gov.uk

